



William Graham AC  
Y Cadeirydd  
Y Pwyllgor Menter a Busnes  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

04 Ebrill 2016

Annwyl William

Fel Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, rwyf wedi ymrwmo i wella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau bws lleol a thrafnidiaeth gymunedol yng Nghymru.

Rwyf wedi cydnabod bod gwasanaethau bws lleol yn hanfodol i fywyd economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Cymru. Bob dydd, mae dros 63,000 o bobl yn dibynnu ar fysiau i deithio i'r gwaith ac mae rhyw 350,000 o deithiau yn cael eu gwneud bob dydd i gyrraedd apwyntiadau ysbyty, gweld ffrindiau, siopa neu hamddena. Gall gwasanaethau bws gynnig ffordd ddibynadwy, hyblyg, fforddiadwy a mwy cynaliadwy o deithio i bobl o bob oedran, gallu a chefnidir.

Yr wythnos ddiwethaf, cyhoeddais Safon Wirfoddol Ansawdd Bysiau Cymru. Nod y safon hon yw helpu gweithredwyr bysiau ac awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd i wella ansawdd gwasanaethau bws lleol ar hyd a lled Cymru. Er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys o hyd i gael y Grant Cymorth i Wasanaethau Bysiau, bydd angen i weithredwyr bysiau lleol fodloni gofynion craidd y safon erbyn mis Mawrth 2017.

Rwy'n croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y pwyllgor yn dilyn yr ymchwiliad i wasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol. Er nad ydwyf yn derbyn rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad, rwyf yn rhannu llawer o'r agweddau a fynegwyd yn yr adroddiad yn ei gyfanrwydd.

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Strategaeth Trafnidiaeth Gymunedol mewn ymgynghoriad â'r sector er mwyn sicrhau bod ei rôl mewn rhwydwaith integredig yn eglur, a gweithio gydag awdurdodau lleol i hyrwyddo dealltwriaeth o drafnidiaeth gymunedol a'r hyn y gall ac na all ei wneud.

**Wedi'i dderbyn mewn egwyddor:** Mae Llywodraeth Cymru'n llwyr gydnabod y cyfraniad pwysig mae trafndiaeth gymunedol yn ei wneud i drafnidiaeth gyhoeddus integredig. Mae uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer system trafndiaeth gyhoeddus integredig wedi'u nodi yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru sy'n parhau i gael ei hadolygu. Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi ystyriaeth barhaus i sut mae trafndiaeth gymunedol yn cael ei hadlewyrchu yn y strategaeth.

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu arferion da o bob rhan o Brydain, o ran darparu cymorth ariannol a chymorth polisi i wasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol, er mwyn ystyried pa wersi y gellir eu dysgu a'u defnyddio yng Nghymru i hybu mwy o sefydlogrwydd a mwy o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru. Yn benodol, os bydd y drefn 'Total Transport' yn effeithiol yn Lloegr, dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i fabwysiadu model tebyg yng Nghymru.

**Wedi'i dderbyn:** Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried arferion da mewn gwledydd eraill wrth ddatblygu ein polisi gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol.

**Argymhelliad 3:** Rydym yn credu y gallai Llywodraeth Cymru archwilio'r agwedd bresennol at bwy sy'n gymwys i gael tocynnau teithio rhatach er mwyn sicrhau bod adnoddau prin yn cael eu targedu yn y modd mwyaf effeithiol i helpu'r rheini sydd â'r angen mwyaf, ac ystyried sut y gallai unrhyw newid effeithio ar y sector trafndiaeth gymunedol.

**Wedi'i dderbyn:** Mae sicrhau bod arian sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer tocynnau teithio rhatach yn parhau i helpu'r rheini sydd â'r angen mwyaf. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ystyried sut y penderfynir pwy sy'n gymwys i gael tocynnau teithio rhatach er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn cynnig gwerth am arian cyn cyflwyno'n polisïau i wneud Cymru'n genedl fwy cyfartal.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ar frys y cyfraddau ad-dalu sydd ar gael i weithredwyr trafndiaeth gymunedol, i wneud yn siŵr nad ydynt yn colli arian, a sicrhau bod setliadau ariannu yn y dyfodol ar gyfer tocynnau teithio rhatach yn darparu'r sicrwydd mwyaf posibl i weithredwyr bysiau a thrafnidiaeth gymunedol.

**Wedi'i dderbyn:** Mae'r cyfraddau ad-dalu sydd ar gael am docynnau teithio rhatach gorfodol ar gyfer gweithredwyr sy'n darparu trafndiaeth gyhoeddus leol yn destun adolygiad.

**Argymhelliad 5:** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi galwadau Llywodraeth Cymru am fwy o bwerau dros fysiau. Yn y cyfamser, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried enghreifftiau o rannau eraill o'r DU a sicrhau bod Cymru yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r pwerau gweithredol sydd ganddi ar hyn o bryd.

**Wedi'i dderbyn:** Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gael setliad datganoledig gwell mewn perthynas â swyddogaethau trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru fel rhan o'r trafodaethau parhaus ynghylch Bil Cymru.

**Argymhelliad 6:** Mae'r Pwyllgor yn nodi â phryder y gallai'r cynigion ar gyfer rhannau o Loegr olygu bod gan rai o ddinasoedd a rhanbarthau Lloegr fwy o bwerau dros drafndiaeth gyhoeddus na'r hyn sydd ar gael i Gymru. Rydym yn argymhell y dylid cynnal trafodaethau brys gyda Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau nad yw Cymru yn cael ei rhoi dan anfantais wrth geisio'r pwerau sydd eu hangen i wella gwasanaethau bws ar gyfer pobl Cymru.

**Wedi'i dderbyn:** Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gael setliad datganoledig gwell mewn perthynas â swyddogaethau trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru fel rhan o'r trafodaethau parhaus ynghylch Bil Cymru.

**Argymhelliad 7:** Dylai Cymru, fel mater o frys, gael ei Chomisiynydd Traffig penodol ei hun, wedi'i leoli yng Nghymru ac yn atebol i Weinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Wedi'i dderbyn:** Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn y dylai Cymru gael Comisiynydd Traffig penodol mewn perthynas â swyddogaethau trafndiaeth gyhoeddus, sy'n atebol i Weinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn agos at gyuno ar sefydlu Comisiynydd Traffig penodol a llawn amser ar gyfer Cymru sydd wedi'i leoli yn y wlad a'i gefnogi gan dri aelod o staff llawn amser dwyieithog.

Ar y cam hwn, byddai'r swydd newydd yn arfer yr un pwerau â nawr, ac yn parhau i fod yn atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru symud yn gyflym i greu uned cynllunio trafndiaeth, â'r holl adnoddau y mae eu hangen arni, o fewn Trafndiaeth Cymru er mwyn goruchwyllo proses effeithiol o gynllunio ac integreiddio siwrneiau bws yng Nghymru.

**Heb ei dderbyn:** Mae'r cyfrifoldeb am gynllunio trafndiaeth leol yn un o swyddogaethau awdurdodau lleol yng Nghymru. Mater i Lywodraeth Cymru yw cynllunio strategol. Mae Trafnidiaeth Cymru'n gwmni dan berchenogaeth Iwyr Gweinidogion Cymru a sefydlwyd i ddechrau i ganolbwyntio ar roi cyngor ac arbenigedd technegol i helpu i gaffael Masnachfaint Rheilffyrdd newydd Cymru a'r Gororau a rhaglen Metro de-ddwyrain Cymru.

**Argymhelliad 9:** Dylai'r Gweinidog sicrhau bod digon o adnoddau ar gael er mwyn cynorthwyo i gyflwyno safonau Ansawdd Bysiau Cymru mewn amserlen realistig, a sicrhau bod y safonau'n orfodol ledled Cymru.

**Wedi'i dderbyn:** Cyhoeddwyd Safon Wirfoddol Ansawdd Bysiau Cymru ar 24 Mawrth. Bydd yn ofynnol i weithredwyr bysiau sy'n darparu gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus cymwys fodloni gofynion craidd y safon erbyn mis Mawrth 2017 er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys o hyd i gael taliadau gan y Grant Cymorth i Wasanaethau Bysiau. Mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y grant hwn wedi aros ar £25m ar gyfer 2016/2017.

**Argymhelliad 10:** O ystyried yr angen clir i integreiddio polisïau a'r rhwydwaith yn well, dylai Llywodraeth Cymru edrych eto ar yr argymhellion yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2013 ar Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig a chynyddu ei hymdrechion i weithredu rhwydwaith trafndiaeth cwbl integredig ledled Cymru.

**Wedi'i dderbyn:** Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried argymhellion y Pwyllgor o hyd wrth i'n polisi ynghylch gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yng Nghymru ddatblygu.

**Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cymru osod terfyn amser o 2018 (i gyd-fynd â chyflwyno'r fasnachfaint rheilffyrdd) ar gyfer gweithredu system docynnau integredig ar gyfer Cymru gyfan i'w defnyddio ar yr holl wasanaethau bws, rheilffordd a Metro masnachol.

**Wedi'i dderbyn mewn egwyddor:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddarparu cynllun tocynnau aml-foddol integredig a fydd ar gael i deithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau bws, trên a metro. Bydd Masnachfaint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn cael ei dyfarnu mewn pryd i'r cwmni gweithredu trenau newydd ddechrau gwasanaethau ym mis Hydref 2018.

Mae cymryd rhan mewn cynllun tocynnau deallus neu ddigidol rhanbarthol / cenedlaethol, lle bo cynllun o'r fath ar waith, wedi'i gynnwys fel gofyniad uwch yn Safon Wirfoddol Ansawdd Bysiau Cymru 2016.

**Argymhelliad 12:** Rydym yn argymell y dylai canllawiau a gyhoeddir i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 nodi swyddogaeth eglur ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o ran sicrhau bod gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol â meysydd polisi ehangach.

**Wedi'i dderbyn:** Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dod i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a gweithio mewn ffordd fwy cysylltiedig. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru rydym i gyd eisiau byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol.

*E dwina Hart*